

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r gwasanaeth: Powells Dental
Surgery, Aberhonddu

Dyddiad y gweithgaredd: 20 Gorffennaf
2022

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Powells Dental Surgery, Aberhonddu fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod o driniaethau deintyddol y GIG a rhai preifat. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu cynnig gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig ar gyfer Powells Dental Surgery ar 20 Gorffennaf 2022, a ddarparodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Asesiad risg amgylcheddol diweddaraf y practis
- Rhestr wirio asesu risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y practis yn gallu cynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol rhwng staff a chleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar nifer y cleifion a oedd yn y practis ar unrhyw adeg a symud teganau a chylchgronau ymaith o'r manau aros.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig fod dwy ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau¹ a gosodwyd unedau awyru ac echdynnu mecanyddol yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u tacluso a dim ond yr offer angenrheidiol ar gyfer pob triniaeth oedd ar ôl yn yr ystafell.

Roedd y cleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn cael eu gwahodd i ddod i'r practis drwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Eglurodd y rheolwr cofrestredig y cysylltwyd â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad, a gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn pennu p'un a oeddent yn peri risg o drosglwyddo COVID-19. Cadarnhawyd yr wybodaeth hon wrth iddynt gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad hefyd.

Dyweddwyd wrth y cleifion i gyrraedd ar yr amser penodedig, ac aros yn eu ceir pan fo modd, er mwyn cadw'r cleifion ar wahân. Gofynnwyd i'r cleifion ddefnyddio hylif diheintio dwylo ac i wisgo masg ar ôl iddynt ddod i mewn i'r practis.

Dyweddwyd wrthym nad oedd y newidiadau wedi effeithio ar allu'r practis i ddarparu gweithgareddau cofrestredig, er bod hyd amseroedd apwyntiadau wedi cynyddu ychydig er

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer glanhau ychwanegol ac unrhyw gyfnod segur.² Rhoddwyd blaenoriaeth i apwyntiadau brys dros apwyntiadau gwirio arferol. Roedd y practis yn cynnig gwasanaethau brysbennu o bell³, cyngor dros y ffôn a chyfeiriadau yn ystod cyfyngiadau COVID-19, ac roedd cleifion sy'n agored i niwed yn cael apwyntiad ar ddechrau neu ar ddiwedd y sesiwn os oeddent yn cael eu hystyried yn achosion brys. Roedd hyn yn sicrhau y gellid darparu gofal i'r cleifion yn unol â'u hanghenion.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod rhai arwyddion a phosteri wedi'u harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod rhai aelodau o staff yn dysgu Cymraeg. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod rhai aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth o anableddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar awtistiaeth, iechyd meddwl a dementia, a'u bod wedi defnyddio'u gwybodaeth i sicrhau bod amgylchedd y practis yn addas i bobl anabl.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Yr archwiliad dihalogi diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁴ a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Cofnodion o'r gwiriadau dyddiol a gynhaliwyd ar y bath uwchsonig
- Amserlenni glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom rai dogfennau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys polisi glanhau, amserlenni glanhau a chofnodion ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y pythefnos diwethaf.

Adolygwyd yr archwiliad dihalogi diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a'r cynllun gweithredu. Roedd y rhain yn dangos bod y practis wedi mynd i'r afael â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad.

² Cyfnod segur yw'r amser mae ystafell driniaeth yn segur yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n rhoi amser i unrhyw ddefnydd setlo cyn glanhau a dihalogi.

³ Dyrannu graddau brys er mwyn penderfynu ar drefn y driniaeth o blith nifer o gleifion.

⁴ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd â mesurau dihalogi. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae wedi'i gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Dywedwyd wrthym bod yr holl staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol a bod hyfforddiant ar gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg⁵ cyfarpar diogelu personol wedi cael ei gyflwyno i'r holl staff. Gwelsom gofnodion o hyfforddiant ar gyfer atal a rheoli heintiau, cyfarpar diogelu personol a hylendid dwylo a gyflwynwyd drwy borth hyfforddi ar-lein. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y staff yn hyderus ac yn gymwys i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.

Disgrifiwyd y broses o ddod o hyd i ddigon o gyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw broblemau o ran dod o hyd i gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Roedd y bwrdd iechyd yn cynorthwyo'r practis drwy ddarparu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol. Er mwyn sicrhau bod y lefelau stoc o gyfarpar diogelu personol yn ddigonol yn y practis, dywedwyd wrthym bod rheolwr y practis yn gwirio lefelau'r stoc yn rheolaidd ac yn swmp-brynu cyflenwadau yn ôl yr angen. Roedd y practis yn rhannu'r cyfarpar diogelu personol gyda'r tri phractis arall yn y grŵp a oedd yn helpu gydag unrhyw brinder o ran cyfarpar.

Dywedwyd wrthym bod y staff wedi cael gwybod am y newidiadau i ganllawiau, prosesau a gweithdrefnau deintyddol yn ystod y pandemig a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrif Swyddog Deintyddol Cymru. Dosbarthwyd diweddariadau a newidiadau i staff drwy negeseuon e-bost ac fe'u trafodwyd yn ystod sesiynau ôl-drafodaeth boreol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad unigolyn cyfrifol) neu, os mai'r un person yw'r unigolyn cyfrifol â'r rheolwr cofrestredig, copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Aseidiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
- Archwiliad o gardiau cofnod

⁵ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

-
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
 - Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf⁶
 - Copi o'r fersiwn ddiweddaraf o'r daflen wybodaeth i gleifion⁷

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym bod y practis wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig. Yn ystod camau cychwynnol y pandemig, cynhaliwyd brysbennu clinigol o bell dros y ffôn cyn i'r cleifion gael cynnig apwyntiad ar y safle. Roedd hyn er mwyn sicrhau mai dim ond y cleifion hynny yr oedd angen apwyntiad personol arnynt oedd yn cael eu gwahodd i safle'r practis. Cynigiwyd cyngor dros y ffôn i gleifion eraill neu cawsant eu cyfeirio at wasanaethau priodol eraill.

Dyweddwyd wrthym nad oedd absenoldebau staff wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Roedd y practis yn gweithredu o fewn grŵp o bedwar practis ar draws De Cymru ac roedd y staff yn symud rhwng y safleoedd i gyflenwi yn ystod absenoldebau pan oedd angen. Dywedwyd wrthym bod y polisiâu a'r gweithdrefnau'n gyson ar draws y pedwar practis.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol gan gynnwys hyfforddiant dadebru cardio-anadlol, atal a rheoli heintiau, diogelu a hyfforddiant tân. Eglurodd rheolwr y practis y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, ac roedd staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd gan y practis broses ar waith ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u trafod ar yr un diwrnod ac yna'n cael eu hadrodd i AGIC ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn defnyddio system feddalwedd cydymffurfedd ddeintyddol i sicrhau bod y canllawiau, y polisiâu a'r gweithdrefnau yn y practis yn gyfredol. Dywedwyd wrthym bod gwybodaeth ar gael i'r staff ac y byddai unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau hefyd yn cael eu hanfon drwy e-bost at y staff. Dywedwyd wrthym bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau ac i sicrhau dealltwriaeth lawn.

Dyweddwyd wrthym bod offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd gwiriadau wythnosol o gyffuriau brys ac offer ategol arall yn cael eu cofnodi. Roedd y gwiriadau hyn a dyddiadau dod i ben meddyginiaeth yn cael eu cofnodi a'u cymeradwyo bob wythnos.

⁶ Ystyr "datganiad o ddiben" yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

⁷ Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

Dywedwyd wrthym mai nod y practis yw gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, archwiliad o gardiau cofnod, ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd adroddiadau archwilio wedi'u dyddio, camau gweithredu wedi'u nodi a themâu wedi'u monitro.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad y practis i gydraddoldeb ac amrywiaeth a disgrifiodd fentrau i wella profiad y staff a'r cleifion. Gwnaethom adolygu'r polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol a oedd yn manylu ar ymrwymiad y practis i'w staff a'i gleifion.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Yn ogystal, cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd i gyd yn gyfredol, yr oedd fersiynau ohonynt wedi'u rheoli a'u llofnodi.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Powells Dental Surgery, 5a Lion Street, Aberhonddu, Powys, LD3 7AY

Dyddiad y gweithgaredd: 20 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun Gwella

Lleoliad: Powells Dental Surgery, 5a Lion Street, Aberhonddu, Powys, LD3 7AY

Dyddiad y gweithgarwch: 20 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch, sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: